# Canllawiau ar Gymhwyso Manyleb Brentisiaethau Cymru

## 1. Cyflwyniad

### 1.1 Statws y Canllawiau hyn

Cyhoeddir y Canllawiau hyn i gefnogi'r gwaith o ddehongli a chymhwyso Manyleb Brentisiaethau Cymru.

Mae Manyleb Brentisiaethau Cymru (ASC) wedi'i gwneud o dan adran 115 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ac mae'n pennu gofynion mewn perthynas â phrentisiaethau Cymreig cymeradwy fel y'u diffinnir yn adran 111 o'r Ddeddf honno.

Mae'r canllawiau hyn:

- yn esbonio'r gofynion a gynhwysir yn y Fanyleb;
- yn esbonio sut y dylid dehongli'r gofynion hynny; ac
- yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu, cymeradwyo, cynnal ac adolygu fframweithiau prentisiaethau mewn ffordd gyson.

Nid yw'r Canllawiau hyn yn creu gofynion ychwanegol ac nid ydynt yn trechu'r Fanyleb. Os bydd unrhyw anghysondeb, y Fanyleb sy'n drech.

### 1.2 Cynulleidfa

Canllawiau yw'r rhain ar gyfer:

- Medr;
- datblygwyr fframweithiau;
- darparwyr prentisiaethau;
- cyrff dyfarnu;
- cyrff proffesiynol;
- cyflogwyr a chyrff sy'n cynrychioli cyflogwyr; a
- sefydliadau eraill sy'n ymwneud â dylunio, cymeradwyo neu gyflwyno fframweithiau prentisiaeth.

### 1.3 Perthynas y Canllawiau â'r Fanyleb

Mae'r Fanyleb yn pennu gofynion mewn perthynas â phrentisiaethau Cymreig cymeradwy.

Dylai'r Canllawiau hyn gael eu darllen ochr yn ochr â:

- Manyleb Brentisiaethau Cymru;
- Y Rhestr o Gymwysterau Procsi Cydnabyddedig ar gyfer Sgiliau Hanfodol (Cymru) (y Rhestr Brocsi); ac
- unrhyw drefniadau gweithredol a gyhoeddir gan Medr sy'n ymwneud â chymeradwyo, adolygu neu gynnal a chadw fframweithiau.

### 1.4 Diben y Fanyleb

Diben y Fanyleb yw darparu llinell sylfaen genedlaethol glir, gyson a gwydn ar gyfer prentisiaethau yng Nghymru.

Mae'n disodli Pennu Safonau Prentisiaethau i Gymru (SASW) ac yn cefnogi gweithredu diwygiadau i brentisiaethau o dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.

Y diben yw cynnal hyder yn ansawdd a chysondeb prentisiaethau Cymreig, gan sicrhau digon o hyblygrwydd i ymateb i anghenion galwedigaethol, anghenion cyflogwyr ac anghenion dysgwyr wrth iddynt newid.

## 2. Datblygu fframweithiau a'u strwythur

**Darpariaethau cysylltiedig y Fanyleb: 2.1.1-2.1.13**

### 2.1 Ffocws galwedigaethol

Dylai fframweithiau prentisiaeth gefnogi cymhwysedd galwedigaethol trosglwyddadwy ac ni ddylid eu datblygu i fodloni anghenion un cyflogwr neu weithle yn unig.

Diben hyn yw sicrhau bod prentisiaid yn datblygu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ymddygiadau sy'n cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi yn yr alwedigaeth neu'r sector perthnasol, yn hytrach na chael eu cyfyngu i sefydliad neu rôl benodol.

### 2.2 Lefel y fframwaith

Rhaid i fframweithiau bennu eu lefel gan ddefnyddio'r disgrifyddion lefel cenedlaethol yn Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC).

Dylai lefel y fframwaith adlewyrchu lefel y cymhwysedd galwedigaethol a'r wybodaeth dechnegol y disgwylir i brentis ei ddangos wedi iddo gwblhau'r brentisiaeth yn llwyddiannus.

### 2.3 Gwerthoedd credyd a chyfanswm y dysgu

Mae'r Fanyleb yn ei gwneud yn ofynnol i fframwaith bennu isafswm y dysgu ar ffurf credydau FfCChC. Mae hyn yn helpu i ddarparu dull cyson a thryloyw o ddisgrifio faint o ddysgu sy'n gysylltiedig â fframwaith prentisiaeth.

Diben y gofyniad hwn yw sicrhau bod fframweithiau prentisiaeth yn cynnwys digon o ddysgu i gyflawni cymhwysedd galwedigaethol ac ennill gwybodaeth dechnegol.

Pan fo cymwysterau wedi'u cynnwys mewn fframwaith, bydd y gwerthoedd credyd fel arfer yn deillio o'r cymwysterau hynny.

Pan na fo cymwysterau wedi'u cynnwys, mae'r Fanyleb yn caniatáu i werthoedd credyd ddeillio o drefniadau dysgu ac asesu cyfwerth sy'n seiliedig ar safonau galwedigaethol.

### 2.4 Gofyniad credyd cymhwysedd galwedigaethol

Mae'r Fanyleb yn ei gwneud yn ofynnol i gymhwysedd galwedigaethol gynrychioli o leiaf 50% o gyfanswm gwerth credyd y fframwaith, oni bai bod y fframwaith yn cynnwys cymhwyster cyfun sy’n ymdrin â chymhwysedd a gwybodaeth, ac os felly rhaid i’r cymhwyster hwnnw fod yn werth o leiaf 37 o gredydau.

Diben y gofyniad hwn yw sicrhau mai cyflawni cymhwysedd galwedigaethol yw prif ganlyniad fframwaith prentisiaeth o hyd, ac mai cymhwysedd galwedigaethol yw'r elfen unigol fwyaf o ddysgu drwy brentisiaeth.

Pan fo cymhwysedd galwedigaethol yn cael ei gyflawni trwy ddysgu ac asesu cyfwerth yn hytrach na drwy gymwysterau, dylid defnyddio unrhyw werth credyd deilliedig wrth ystyried a yw'n cydymffurfio â'r gofyniad hwn.

## 3. Cymwysterau a chymhwysedd galwedigaethol

**Darpariaethau cysylltiedig y Fanyleb: 2.2.1-2.2.12**

### 3.1 Fframweithiau sy'n seiliedig ar gymwysterau

Pan fo cymwysterau wedi'u cynnwys, dylent gefnogi cyflawni'r cymhwysedd galwedigaethol a'r wybodaeth dechnegol sy'n briodol i'r alwedigaeth a lefel y fframwaith.

Caiff cymwysterau gynnwys:

- cymwysterau cymhwysedd galwedigaethol a gwybodaeth dechnegol ar wahân; neu

- cymhwyster integredig sy'n cynnwys y ddwy elfen.

Nid yw'r Fanyleb yn rhagnodi dyluniad manwl ar gyfer cymwysterau. Ei diben yw pennu’r gofynion y mae’n rhaid i fframweithiau prentisiaethau eu bodloni, yn hytrach na diffinio cynnwys, strwythur neu reoleiddio manwl cymwysterau unigol, sydd yn parhau’n gyfrifoldeb i gyrff dyfarnu a rheoleiddwyr cymwysterau.

**3.2 Cymhwysedd galwedigaethol**

At ddibenion y Fanyleb, mae cymhwysedd galwedigaethol yn cyfeirio at y sgiliau ymarferol, yr wybodaeth a'r ymddygiadau sy'n ofynnol er mwyn perfformio'n effeithiol yn yr alwedigaeth a gwmpesir gan fframwaith.

Bydd cymhwysedd galwedigaethol fel arfer yn cael ei ddangos drwy gymhwyster cymhwysedd galwedigaethol. Fodd bynnag, mae'r Fanyleb hefyd yn caniatáu i ofynion cymhwysedd fod yn seiliedig yn uniongyrchol ar safonau galwedigaethol lle nad oes cymwysterau ar gael neu fod angen eu datblygu.

Bwriedir i'r hyblygrwydd hwn gefnogi galwedigaethau lle nad oes cymwysterau priodol yn bodoli ar hyn o bryd neu lle mae'r gwaith o ddatblygu cymwysterau yn dal i fynd rhagddo, gan gynnal hyder mewn canlyniadau prentisiaethau.

**3.3 Gwybodaeth dechnegol**

Mae gwybodaeth dechnegol yn cyfeirio at y theori, yr egwyddorion a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol i gefnogi cymhwysedd galwedigaethol.

Mae'r Fanyleb yn gwahaniaethu rhwng cymhwysedd galwedigaethol a gwybodaeth dechnegol er mwyn sicrhau bod prentisiaid yn datblygu'r gallu ymarferol i ymgymryd â galwedigaeth a'r wybodaeth i'w cefnogi i berfformio'n effeithiol yn yr alwedigaeth honno.

**3.4 Safonau galwedigaethol a safonau cyrhaeddiad**

Pan fo safonau galwedigaethol yn cael eu defnyddio yn lle cymwysterau, dylai fframweithiau nodi:

- y safonau galwedigaethol sy'n cael eu defnyddio;
- y safonau cyrhaeddiad sy'n ofynnol er mwyn cwblhau'r brentisiaeth yn llwyddiannus; a
- sut y bydd cyflawniad yn erbyn y safonau hynny yn cael ei asesu a sut y dangosir tystiolaeth ohono.

At ddibenion y Fanyleb, mae "safonau cyrhaeddiad" yn cyfeirio at lefel y berfformiad, cymhwysedd neu gyflawniad y mae'n rhaid i brentis ei ddangos er mwyn cwblhau'r fframwaith yn llwyddiannus.

### 3.5 Safonau galwedigaethol

Mae'r Fanyleb yn ei gwneud yn ofynnol i gymhwysedd galwedigaethol fod yn seiliedig ar:

1. Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, lle maent yn bodoli; neu
2. safonau galwedigaethol cydnabyddedig neu safonau proffesiynol cydnabyddedig lle nad yw Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn bodoli.

Pan fo safonau galwedigaethol yn cael eu defnyddio'n uniongyrchol mewn fframwaith, dylent fod yn berthnasol i'r alwedigaeth ac yn gallu cefnogi'r gwaith o gyflawni cymhwysedd galwedigaethol. Diben hyn yw cynnal hyder mewn canlyniadau prentisiaeth gan ganiatáu hyblygrwydd mewn sectorau lle nad yw cymwysterau ar gael neu lle mae'r gwaith o'u datblygu yn dal i fynd rhagddo.

### 3.6 Cymwysterau drafft

Mae'r Fanyleb yn caniatáu i fframwaith gyfeirio at gymwysterau drafft pan fo disgwyl i un o reoleiddwyr cymwysterau'r DU gymeradwyo'r cymwysterau.

Diben y ddarpariaeth hon yw cefnogi'r gwaith o ddatblygu fframweithiau a chynllunio'r broses weithredu pan fo'r prosesau cymeradwyaeth rheoleiddiol ar gyfer cymwysterau newydd yn dal i fynd rhagddynt.

## 4. Gofynion galwedigaethol ychwanegol

### Darpariaethau cysylltiedig y Fanyleb: 2.4.1-2.4.2

Caiff fframweithiau gynnwys gofynion galwedigaethol ychwanegol lle mae'r rhain yn angenrheidiol i gyflawni cymhwysedd galwedigaethol.

Gall enghreifftiau gynnwys:

- gofynion trwydded i ymarfer;
- gofynion cofrestru proffesiynol;
- ardystiadau sy'n benodol i'r diwydiant; neu
- gofynion eraill sy'n benodol i'r alwedigaeth.

Pan fo gofynion ychwanegol wedi'u cynnwys, dylai fframweithiau nodi'n glir y canlyniadau sydd i'w cyflawni a sut y dangosir tystiolaeth o gyflawniad.

## 5. Hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith

**Darpariaethau cysylltiedig y Fanyleb: 2.5.1-2.5.4**

Rhaid i fframweithiau nodi:

- isafswm yr oriau dysgu;
- isafswm yr oriau a dreulir ar hyfforddiant yn y gwaith; ac
- isafswm yr oriau a dreulir ar hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith.

Bydd y cydbwysedd rhwng hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith yn amrywio yn ôl gofynion yr alwedigaeth a'r fframwaith.

Diben y gofynion hyn yw sicrhau bod prentisiaid yn cael digon o gyfleoedd i ddysgu yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith i gefnogi cyflawni cymhwysedd galwedigaethol.

## 6. Ystyriaethau o ran y Gymraeg

**Darpariaethau cysylltiedig y Fanyleb: 2.1.12**

Mae'r Fanyleb yn ei gwneud yn ofynnol ystyried cyfleoedd i gynyddu mynediad at brentisiaethau a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu cyfleoedd i ddysgwyr ymgymryd â phrentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg lle bo hynny'n ymarferol ac yn briodol.

Gall ystyriaethau perthnasol gynnwys:

- y galw gan ddysgwyr;
- cyfleoedd i gynyddu cyfranogiad mewn prentisiaethau a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg;
- y galw gan gyflogwyr;
- argaeledd prentisiaethau a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg; a
- blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru o ran y Gymraeg.

Diben hyn yw annog twf parhaus mewn cyfleoedd i ymgymryd â phrentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg gan gydnabod y gall argaeledd cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg, safonau galwedigaethol a threfniadau asesu amrywio rhwng sectorau.

## 7. Sgiliau hanfodol a chymwysterau procsi

**Darpariaethau cysylltiedig y Fanyleb: 2.6.1-2.7.3**

### 7.1 Diben

Mae Sgiliau Hanfodol yn cefnogi prentisiaid i gymryd rhan yn effeithiol yn eu swyddi, eu dysgu a'r gymdeithas ehangach.

### 7.2 Gofynion fframweithiau

Ar gyfer Prentisiaethau a Phrentisiaethau Sylfaen, mae'r Fanyleb yn pennu'r gofynion sylfaenol ar gyfer Sgiliau Hanfodol gan ganiatáu i fframweithiau ofyn am lefelau uwch lle bo hynny'n briodol ar gyfer yr alwedigaeth.

Mae hyn yn adlewyrchu'r egwyddor y dylai fframweithiau prentisiaeth ddarparu llinell sylfaen gyson gan hefyd fod yn hyblyg i ymateb i anghenion yr alwedigaeth.

### 7.3 Prentisiaethau uwch a gradd-brentisiaethau

Nid yw'r Fanyleb yn ei gwneud yn ofynnol cynnwys Sgiliau Hanfodol mewn fframweithiau ar gyfer Prentisiaethau Uwch na Gradd-brentisiaethau.

Mae hyn yn adlewyrchu bwriad polisi i fabwysiadu dull mwy cymesur ar gyfer prentisiaethau uwch, gan gydnabod y gall fod gan ddysgwyr eisoes gymwysterau, sgiliau neu brofiad perthnasol.

Y bwriad yw lleihau rhwystrau diangen i gyfranogiad mewn prentisiaethau a'u cwblhau, gan sicrhau bod gan ddatblygwyr fframweithiau yr hyblygrwydd i gynnwys Sgiliau Hanfodol lle maent yn parhau i fod yn berthnasol i gymhwysedd galwedigaethol neu anghenion y diwydiant.

### 7.4 Cymwysterau procsi

Pan fo Sgiliau Hanfodol wedi’u pennu mewn fframwaith, dylai’r fframwaith nodi pa gymwysterau procsi o’r Rhestr Brocsi gyhoeddedig y gellir eu derbyn fel tystiolaeth o gyflawni’r Sgiliau Hanfodol perthnasol.

Oni nodir yn wahanol, dylai’r fersiwn o’r Rhestr Brocsi sydd mewn grym pan ddaw’r fframwaith prentisiaeth perthnasol i rym fod yn gymwys.

Bydd unrhyw ddiwygiad i'r Rhestr Brocsi yn cael ei gyhoeddi ar wahân.

## 8. Adolygiad o fframwaith

### Darpariaethau cysylltiedig y Fanyleb: 2.1.11 a 2.1.13

Dylid adolygu fframweithiau o bryd i'w gilydd yn unol â'r trefniadau a bennir gan Medr.

Pwrpas yr adolygiad yw sicrhau bod fframweithiau yn parhau i fod yn gyfredol ac yn berthnasol a'u bod yn ymateb i newidiadau i alwedigaethau, cymwysterau ac anghenion y farchnad lafur, gan barhau i gefnogi cyflawni cymhwysedd galwedigaethol a gwybodaeth dechnegol.

## 9. Cychwyn a threfniadau trosiannol

### Darpariaethau cysylltiedig y Fanyleb: Cychwyn a threfniadau trosiannol

Mae'r Fanyleb yn gymwys i fframweithiau prentisiaeth o 1 Awst 2027.

Bydd prentisiaid a ymrwymodd i brentisiaeth Gymreig gymeradwy cyn i fersiwn ddiwygiedig o’r Fanyleb ddod i rym yn parhau fel arfer i gwblhau eu prentisiaeth o dan y gofynion a oedd mewn grym pan ymrwymwyd i’r brentisiaeth, oni bai fod trefniadau trosiannol gwahanol wedi’u pennu.

Gall diwygiadau i’r Fanyleb yn y dyfodol gynnwys trefniadau trosiannol penodol pan fo hynny’n briodol.